Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 04.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

## DIGWYDDIADAU: M-SParc

Bydd M-SParc yn cynnal nifer o ddigwyddiadau am ddim mewn gwahanol leoliadau, ac ar-lein, yn ystod yr wythnosau nesaf, gan gynnwys gweithdai ffotograffiaeth ac argraffu sgrîn; digwyddiadau rhwydweithio digidol a thechnoleg amaeth, a gwybodaeth ar sut all Cyllid Gwyrdd gynorthwyo'ch busnes. I ddysgu mwy, ewch i:

https://m-sparc.com/cy/digwyddiadau/

## DIGWYDDIAD: Diweddariad marchnata Croeso Cymru 13 Hydref 2022

Bydd cyfle i fusnesau glywed am weithgareddau marchnata Croeso Cymru dros gyfnod yr hydref a'r gaeaf ac i ofyn cwestiynau, mewn digwyddiad ar-lein ar 13 Hydref 2022 (10:30am-12:00pm). Bydd y cyfnod cofrestru yn cau am 3:00pm 7 Hydref 2022. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://wales.business-events.org.uk/cy/digwyddiadau/diweddariad-diwydiant-marchnata-croeso-cymru/

## DYSGU: MADE Cymru – cyrsiau yn dechrau 7 Hydref 2022

Mae llefydd wedi eu hariannu'n llawn ar gyfer busnesau cymwys bellach ar gael ar raglenni MADE Cymru ar gyfer gweithgynhyrchwyr, 'Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant 4.0' a 'Rheoli Arloesedd'. Mae'r cyrsiau yn dechrau ar 7 Hydref 2022, am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.madecymru.co.uk/cy/

neu e-bostiwch: MADE@uwtsd.ac.uk

## YMGYRCH: Wythnos Ailgylchu 17-23 Hydref 2022

Bydd Wythnos Ailgylchu yn digwydd rhwng 17 a 23 Hydref 2022, gyda'r ffocws ar daclo dryswch dros beth y gellir – ac na ellir – ei ailgylchu, ac ysgogi'r cyhoedd i ailgylchu mwy o'r pethau iawn, yn amlach. Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys pecyn adnoddau partner, ar gael ar:

https://wrapcymru.org.uk/cy/adnoddau/asedau-ymgyrchoedd/cymru-yn-ailgylchu-asedau-wythnos-ailgylchu-2022

## TRETH: Cyflwyno ffurflen Hunanasesu yn gynharach

Mae gan gwsmeriaid CThEM hyd at 31 Ionawr 2023 i yrru eu ffurflen dreth Hunanasesiad ac i dalu unrhyw dreth sy'n ddyledus. Fodd bynnag, mae nifer cynyddol o gwsmeriaid yn dewis cyflwyno eu ffurflen ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn dreth. Darganfyddwch mwy am Hunanasesu ar:

https://www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-self-assessment

## CYFLE: Rising Stars 5.0

Mae Rising Stars yn gystadleuaeth cyffrous ar gyfer cwmnïau technoleg arloesol, cyfnod cynnar, wedi ei gynllunio i arddangos a chefnogi y gorau sydd gan y DU i'w gynnig, ac mae bellach ar agor i geisiadau. Bydd pob ymgeisydd yn derbyn cynnwys a chyfleoedd rhwydweithio gwerthfawr tra bod y beirniadu ar y gweill, hyd yn oed os nad ydynt yn symud ymlaen i gam nesaf y gystadleuaeth. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://technation.io/programmes/rising-stars/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru